

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 4ydd Hydref, 2022
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth

Gorfforaethol

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	ADRODDIAD PERFFORMAID YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED	Cyng. Dyfrig Siencyn / Cyng. Nia Jeffreys	Sioned E Williams	4 - 10
6	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL	Cyng. Menna Jones	Geraint Owen	11 - 21
7	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI A EIDDO	Cyng. Craig ab Iago	Carys Fon Williams	22 - 37
8	BLAEN RAGLEN Y CABINET	Cyng. Dyfrig Siencyn		38 - 40

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 04 Hydref 2022

Aelod Cabinet: Cyngorydd Dyfrig Siencyn a Cyngorydd Nia Jeffreys

Swyddog Cyswllt: Sioned Williams

Rhif Cyswllt: 01286 679547

Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau ein cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelodau Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

Prosiect 1: Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

2.1 Mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol i waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd i sicrhau y bydd yn cyflawni. Mae [linc yma](#) i adroddiad chwarterol sy'n cynnwys mwy o fanylion am y cynnydd ar y gwahanol brosiectau twf ar y pwynt adrodd mwyaf diweddar i Aelodau. Ers mis Mawrth gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cynllun Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor. Lanswyd y cynllun yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, 21 Gorffennaf 2022 ac yn sgil y buddsoddiad cychwynol mae 13 o swyddi ymchwil ym Mangor wedi cael budd a 4 swydd newydd wedi eu creu.

Prosiect 2: Creu Swyddi Gwerth Uchel

2.2 Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o weithgaredd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer creu gwaith sy'n talu'n dda a pharatoi disgyblion ysgolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

- 2.3 Mae'r cynllun STEM Gogledd, sydd yn paratoi ein pobl ifanc i fanteisio ar swyddi mewn meysydd gwyddonol, technolegol a pheirianeg wedi sicrhau estyniad i'w gyfnod gweithredu hyd at ganol 2023. Ymhlith yr uchafbwyntiau diweddar, cynhaliwyd wythnos o weithgaredd o dan y faner 'Merched Medrus' ar gyfer disgyblion dalgylch Caernarfon a gweithdy penodol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Uwchradd Tywyn.
- 2.4 Mae'r gwaith o ddiogelu a chreu swyddi newydd ar safle Trawsfynydd a Llanbedr hefyd wedi parhau. Yn benodol rwyf yn falch o adrodd fod cais ar gyfer gwella'r mynediad i faes awyr Llanbedr wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DG, datblygiad sy'n allweddol i ddatblygiad y safle a gwella ansawdd bywyd trigolion pentref Llanbedr.
- 2.5 Mae'r tîm hefyd wedi datblygu a chyflwyno cais am arian gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear yn ddiwedd gyda'r nod o ddenu £450,000 o fuddsoddiad i Wynedd i gefnogi busnesau lleol i adfer, ein trigolion i sicrhau gwaith ac i baratoi'r ffordd ar gyfer sicrhau fod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o fuddsoddiadau arfaethedig yn Nhrawsfynydd a Llanbedr
- 2.6 Dros y misoedd diwethaf, mae adnoddau'r tîm prosiect yma hefyd wedi'i gyfeirio i gefnogi ymdrechion i lunio cyfundrefn a chynigion ar gyfer buddsoddiad Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG (yr UK Shared Prosperity Fund) ar gyfer Gwynedd a Gogledd Cymru. Bydd y gwaith yn arwain at fuddsoddiad sylweddol yng Ngwynedd, ond rhaid nodi yn y tymor byr fod gwaith sylweddol i'w wneud i sefydlu trefniadau llywodraethu, rheoli a gweinyddu.

Prosiect 3: Arloesi Gwynedd Wledig

- 2.7 Mae'r rhaglen yn gweithio i gryfhau seiliau'r economi wledig drwy ystod o ymyraethau yn cynnwys cefnogi datblygu isadeiledd digidol y sir, helpu busnesau gwledig i sefydlu a thyfu a chefnogi mwy o arloesedd yng nghefn gwlad Gwynedd.
- 2.8 Rwyf yn falch o weld fod y cynllun [Platfform Digidol](#), fydd yn cynnig cymorth ychwanegol i fusnes yn y sir wneud defnydd da o dechnoleg bellach yn weithredol. Rhagwelir y bydd dros hanner cant o fusnesau lleol yn elwa o'r cynllun yn ystod y flwyddyn nesaf gan dderbyn cymorth ymarferol i wireddu eu dyheadau.
- 2.9 Mae'r tîm prosiect hefyd wedi cyflwyno cyfres o geisiadau yn ddiweddar i Lywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau i gefnogi datblygu'r economi cylchol yng Ngwynedd, fydd yn dod a manteision economaidd ac amgylcheddol i'r sir. Os yn llwyddo bydd y ceisiadau yn sicrhau £1.7M o fuddsoddiad ar gyfer detholiad o weithgaredd gan gynnwys, gefnogi Hwb Dadgarboneiddio Adra Cyf. ym Mhenygroes a chefnogaeth bellach i'r rhwydwaith o ofod gwneud - dan y faner Ffiws - sydd wedi eu sefydlu ledled Gwynedd i gynyddu mynediad trigolion a busnesau i offer.
- 2.10 Mae'r uchafbwyntiau eraill yn ddiweddar yn cynnwys:
- Lleoli pobl ifanc dros gyfnod yr haf gyda busnesau lleol i'w gefnogi i leihau eu hol troed carbon
 - Cyflwyno rhaglen o gefnogaeth i alluogi busnesau lleol i wneud defnydd o data i ddeall anghenion eu cwsmeriaid a phatrymau defnydd ein trefi
 - Cynnig cyfle i fusnesau lleol dreialu cynnig prydiau ar glyd gan ddefnyddio'r gegin treialu sydd wedi'i leoli ym Motwnnog

- Cynnal sesiynau gyda phlant ysgol gynradd yng ngofod Ffiws Porthmadog i'w cyffroi ynglŷn â defnydd technoleg
- Sicrhau cyswllt bandeang i drigolion Ynys Enlli

2.11 Yn olaf, o ran y rhaglen ARFOR, rwyf yn falch o adrodd fod cynnig llawn bellach wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r adborth cychwynnol i'r cynnig wedi bod yn ffafriol a rhagwelir derbyn cynnig ffurfiol yn fuan.

Prosiect 4: Hyrwyddo Canol Trefi

2.12 Yn ystod y flwyddyn ddiweddar fe sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer targedu cronfeydd rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi. Erbyn diwedd mis Mawrth, llwyddwyd i hawlio grantiau gwerth £2m ar gyfer prosiectau yng Ngwynedd gyda gwaith gweithredu a monitro yn parhau.

2.13 Yn ystod Ch1 2022/23 rhoddwyd blaenoriaeth i baratoi ceisiadau ariannol ar gyfer Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth DU. Datblygwyd a chyflwynwyd cais ar gyfer canol dinas Bangor, yn ymgorffori datblygiadau megis Canolfan Iechyd a Lles, Gwelliannau Glannau Bae Hirael a chysylltiadau gwyrdd, a datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru (Gwedd 1). Mae pecyn y cais yn cynnwys buddsoddiad o tua £40m, a disgwylir penderfyniadau ar geisiadau Cronfa Codi'r Gwastad yn yr hydref.

2.14 Mae Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol wedi ei sefydlu, sy'n dwyn ynghyd wahanol Wasanaethau sydd yn delio gyda eiddo gwag. Mae Cynllun Gweithredu wedi ei baratoi, ynghyd a rhestr blaenoriaeth eiddo gwag. Mae'r Grŵp hefyd yn datblygu manylion sbectwm o ymyraethau gweithredol – sydd yn cynnwys gwybodaeth a chynghor, darparu gwybodaeth technegol, cefnogaeth ariannol (grantiau a benthyciadau, bygythiad camau gorfodaeth, adennill dyledion ac achosion gorfodaeth ffurfiol.

Prosiect 5: Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith

2.15 Bellach mae dros flwyddyn wedi mynd heibio ers i Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Y flaenoriaeth yn awr i'r Gyngor a'i bartneriaid yw sicrhau'r buddion mwyaf i gymunedau a busnesau a rheolaeth gynhwysol o'r Safle Treftadaeth Byd. Dros y misoedd diwethaf mae strwythur gweithredu newydd wedi ei gyttuno a'i roi ar waith fel bod pob partner, cymuned a budd-ddeiliaid ehangach yn cyfrannu at weithredu a datblygu ein Safle.

2.16 Er bod gweithgareddau'r prosiect LleCHI bellach wedi dod i ben, mae cais dilynol wedi ei gymeradwyo gan y Gronfa Loteri Treftadaeth Genedlaethol gwerth £128,000 fydd yn ymgysylltu a chyd-weithio efo cymunedau'r dynodiad a'n rhanddeiliaid er mwyn datblygu cais dilynol gyda gwerth o dros £1m. Bwriad ail ran ein cais, os yn llwyddiannus, fydd datblygu perchnogaeth cymunedau o'u treftadaeth, hyrwyddo balchder a diwylliant ein broydd llechi a dehongli ein treftadaeth i bawb. Mae'r Gyngor yn edrych ymlaen at y cyfnod datblygol hwn er mwyn creu prosiect fydd yn cyfrannu at falchder bro a chyfraniad ein hardal i'r byd.

2.17 Llwyddodd y Gyngor i sicrhau £150,000 o gyllid trwy Cadw, Llywodraeth Cymru i weithredu camau cyntaf ein Strategaeth Ddehongli. Rydym wedi bod yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a thirfeddianwyr wrth ddatblygu paneli dehongli newydd fydd yn cael eu gosod dros y misoedd nesaf er mwyn creu stori unedig ar gyfer ein diwydiant llechi.



- 2.18 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno cais i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Cymru ym mis Awst a disgwylir penderfyniad ar y cais yn ystod yr Hydref. Mae'r cais hwnnw'n canolbwyntio ar 3 ardal o'r Safle – Bethesda, Parc Padarn a Blaenau Ffestiniog a bydd yn gwella cysylltiadau rhwng y cymunedau a'r chwareli, gwella dehongli a pherchnogaeth ac yn arwain at welliannau trefol. Gwerth y cais yma oedd £26m.
- 2.19 Mae Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy o'r safle yn y dyfodol. A mae Canllaw Dylunio hefyd wedi ei gyhoeddi er mwyn annog cymunedau a pherchnogion nodweddion hanesyddol i warchod a diogelu nodweddion hanesyddol a chymeriad ein trefi a phentrefi llechi.

Prosiect 6: Twristiaeth – Llundio Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy

- 2.20 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddi ers blynnyddoedd bellach i sefydlu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i Wynedd ac Eryri. Rydym wedi craffu arfer da o ardaloedd eraill o Ewrop ac yn rhyngwladol ar eu Cynlluniau Economi Ymweld Cynaliadwy gan gynnwys sut mae mesur effaith. Cawsom hefyd arweiniad gan arbenigwyr rhyngwladol mewn twristiaeth cynaliadwy.

Yn dilyn nifer fawr o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, cynghorwyr, aelodau lleol, busnesau a chymunedau; fe gyflawnwyd y canlynol:

- Cyrraedd dros 250 o gynrychiolwyr
 - Ysgogi dros 1,500 o sylwadau gan fynychwyr
 - Ymgysylltu efo 14 ardal o Wynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
 - Cyrraedd dros 100 o sefydliadau cyhoeddus, cyrff neu fusnesau unigol
 - Dros 4,490 wedi derbyn gwybodaeth a gwahoddiad i gyfrannu yn y digwyddiadau trwy Fwletin Busnes Cyngor Gwynedd
- 2.21 Bellach mae strwythur gweithredu wedi ei ffurfio rhwng y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn datblygu a gweithredu'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Partneriaeth a Grŵp Gweithredu. Sefydlwyd hefyd Grŵp Tasg a Gorffen gyda rhanddeiliaid allweddol o'r sector twristiaeth, cymunedau Gwynedd a'r sector cyhoeddus ac addysg er mwyn derbyn sylwadau ar drywydd y Cynllun. Mae Cyngor Conwy hefyd yn mynychu ein cyfarfodydd. Bellach mae Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu a Mesuryddion Effaith drafft i gyd mewn lle.
- 2.22 Bwriedir cyflwyno'r holl ddogfennau i'r Cabinet am benderfyniad yn ystod y Gaeaf 2022 er mwyn lansio'r Cynllun yn ffurfiol yn ystod y Gwanwyn 2023. Nid oes unrhyw ardal arall o Gymru'n datblygu Cynllun i'r un graddau ag sy'n digwydd yng Ngwynedd ac Eryri ac rydym yn hyderus y bydd ein Cynllun newydd yn torri tir newydd ar gyfer cefnogi economi ymweld cynaliadwy.

Prosiect 7: Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

- 2.23 Mae'r ansicrwydd i fusnesau Gwynedd yn dwysau. Ar ben yr her o adfer wedi'r pandemig ac ymdopi gyda sgil effeithiau Brexit, maent bellach yn wynebu effaith chwyddiant; gyda chost eu gorbenion a'u cyflenwadau yn cynyddu'n sylweddol ar amser pan mae cwsmeriaid yn cwtogi gwariant. Gyda'r bygythiad o ddirwasgiad ar y gorwel, mae angen cefnogi ein mentrau lleol yn fwy nac erioed.
- 2.24 Mewn ymateb mae'r Cyngor wedi cynyddu ei adnoddau i helpu mentrau lleol drwy gyflogi 2 swyddog yn ychwanegol o fewn y tîm Cefnogi Busnes.



- 2.25 Rydym yn cynnal ein ffocws ar sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen arnynt ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y Cyngor a sefydliadau eraill. Rydym hefyd wedi cwblhau ymarferiad i adnabod anghenion ein busnesau heddiw ac i'r dyfodol ac i lunio fframwaith i ni allu derbyn eu hadborth yn barhaus er mwyn adnabod problemau ac ymateb yn sydyn.
- 2.26 Rydym hefyd yn cynllunio i sicrhau arian o ffynonellau allanol megis Cronfa Ffyniant y DU a'r rhaglen ARFOR i helpu ein busnesau i oresgyn a datblygu i'r dyfodol.

Prosiect 8: Pobl Gwynedd yn Chwarae Rhan Iawn yn y Byd Gwaith

- 2.27 Adroddwyd yn flaenorol fod cyflogwyr yn adrodd eu bod yn cael hi'n anodd recriwtio staff digonol; mae'r problemau yma'n parhau ac yn dwysau ar draws sectorau yn y sir.
- 2.28 Mewn ymateb, mae tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor wedi dwysau eu hymdrechion i gefnogi busnesau drwy hyrwyddo cyfleoedd a chynnal cyfres o ffeiriau swyddi ar hyd a lled y sir i hwyluso'r broses o ddod a chyflogwyr ac unigolion sy'n chwilio am waith ynghyd.
- 2.29 Yn gyfochrog, mae ymdrech sylweddol gan Gwaith Gwynedd i dargedu unigolion oed gwaith sydd yn segur ond ddim yn chwilio am waith yn ôl i'r gweithlu. Mae'r gwaith yma'n ddwys ac yn golygu gweithio gydag unigolion dros gyfnod i ddatrys detholiad o heriau sydd yn eu hatal rhag gweithio. Er hyn, yn y cyfnod rhwng Ebrill ac Awst 2022, mae 61 o bobl Gwynedd wedi eu cefnogi i sicrhau swydd gan dîm Gwaith Gwynedd.

Prosiect 9: Lluo Cynllun Adfywio ar gyfer ein Hardaloedd

- 2.30 Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer Gwynedd yn parhau. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf eleni, bu i'r Cyngor drefnu rhaglen ymgysylltu 'Ardal Ni 2035' er mwyn ceisio barn a thrigolion ar flaenoriaethau lleol. Derbyniwyd dros 3,600 o holiaduron sydd wedi eu cofnodi a'u dadansoddi. Mae adroddiadau ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol wedi eu paratoi er mwyn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd.
- 2.31 Cam nesaf o'r broses fydd i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ym mhob ardal er mwyn adrodd yn ôl, a chychwyn ar y gwaith o lunio cynlluniau gweithredu lleol. Mae gryn waith wedi ei wneud i baratoi ar gyfer y digwyddiadau hyn, fydd yn cael eu cynnal ar draws y Sir yn ystod mis Medi ac Hydref.

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Mae'r Adran yn y broses o adolygu ei mesuryddion perfformiad gyda trefniadau newydd i gasglu data mewn lle. Wrth adolygu Dashfwrdd Perfformiad yr Adran mae'n glir fod cynnydd mewn nifer defnyddwyr gwasanaethau o'i gymharu â 2020/21, ond mae'r niferoedd yn parhau i fod yn dilyn patrwm gwahanol iawn i'r sefyllfa cyn argyfwng COVID. Hoffwn dynnu sylw at 2 maes gwasanaeth penodol:

Adnoddau Hamdden – Cwmni Byw'n Iach

Perfformiad Chwarter 1 2021/22: 54,757

Perfformiad Chwarter 1 2022/23: 187,495

- 3.2 Fe nodwch fod cyfanswm nifer ymweliadau Chwarter 1 2022/23 132,738 yn uwch na 2021/22. Mae'r nifer ymweliadau yn sylweddol uwch oherwydd bu cyfyngiadau COVID yn chwarter 1 2021/22. Fodd bynnag, i gymharu a blwyddyn arferol cyn COVID, mae nifer ymweliadau fymryn yn is. Mi roedd hynny i'w ddisgwyl oherwydd y colledion a fu yn nifer fu'n talu am becynnau Debyd Uniongyrchol yn ystod y cyfnodau clo.
- 3.3 Mae rhagolygon y bydd data'r ail chwarter yn dangos fod y cwmni bellach yn gweithio'n ôl i lefelau cyn y pandemig, er bydd y sefyllfa ariannol yn parhau'n fregus yn sgil cynnydd sylweddol mewn costau a chostau byw defnyddwyr. O ganlyniad, dwi'n awyddus i gael trafodaeth fwy manwl gyda'r Cabinet yn yr wythnosau nesaf am sefyllfa Cwmni Byw'n Iach a'u cytundeb i ddarparu gwasanaethau i Gyngor Gwynedd o 2023/24 ymlaen.

Gwasanaeth Morwrol - Defnydd Hafan a Harbyrau

Nifer cwsmeriaid Hafan Pwllheli : 406

Nifer cwmseriaid harbyrau eraill : 372

- 3.4 Mae tymor yr Haf eto eleni wedi bod yn brysur iawn ar hyd arfordir Gwynedd. Mae Hafan Pwllheli yn llawn gyda 406 o cwsmeriaid blynyddol. Roedd hefyd cyfanswm o 372 o cwsmeriaid blynyddol yn harbyrau Porthmadog, Pwllheli, Abermaw, Aberdyfi a Doc Fictoria. Yn ychwanegol roedd 2,380 wedi cofrestru cychod pŵer / badau dwr personol eleni o'i gymharu a 2,434 llynedd.
- 3.5 Ni lwyddwyd i ennill gwobrau traeth Baner Las eleni yn sgil newid yn y gofynion. Serch hynny, gwelwyd cyfnodau prysur iawn ar ein traethau. Trefnwyd ymgyrch diogelwch traethau newydd gan y Gwasanaeth er mwyn hybu diogelwch ar y traeth. Bydd y Gwasanaeth yn cynnal adolygiad o drefniadau eleni yn yr Hydref, ac mae'n galonogol iawn adrodd nad oedd damwain angeuol ar ein traethau eleni.

4. SEFYLLFA ARBEDION

- 4.1 Mae gan yr Adran gynllun newydd oedd i fod i greu arbedion yn 2022/23, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor £70,000. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd. Gyda'r gwaith adnewyddu yn parhau, mae'n anodd ar hyn o bryd i weld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu'r Neuadd. Mae'n amlwg fod yr argyfwng a'r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wyllo ffilmiau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y wê/teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu'r arbedion yn llawn.
- 4.2 Mae 3 cynllun yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £105,000), gyda'r 3 yn amodol ar ganiatâd i godi ffioedd fel rhan o adolygiad parcio. Mae trefniadau ar waith gan yr Adran Amgylchedd i wneud yr adolygiad ac felly mae'r amserlen i wireddu'r arbedion yn ddibynnol ar y gwaith yma. Nid yw'r amserlen yn wybyddus yn bresennol.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1 Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac mae cyfarfod arbennig o'r Tim Rheoli Adran wedi cael ei drefnu ar gyfer 21 Hydref, gyda cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn bresennol.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwaengu os safbwynt priodoldeb

Pennaeth Cyllid:

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Economi a Chymuned.”

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	4 Hydref, 2022
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Menna Jones
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen
Rhif Cyswllt:	01286 679072
Pwnc:	ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 13 o Fedi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.
- 1.3 Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella]

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 9 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

2.1 CADW'R BUDD YN LLEOL

- 2.1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.
- 2.1.2. Dros y flwyddyn a hanner diwethaf mae llawer o waith wedi ei wneud i uchafu buddion cymdeithasol wrth gaffael. Mae gwaith y cynllun treialu asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol yn dod i ddiwedd glo, gyda'r trydydd a'r tendr peilot olaf yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. Mae adroddiad wedi ei drafftio yn argymhell ffordd ymlaen gyda'r bwriad i ennill sêl bendith dros yr Hydref.
- 2.1.3 Mae gwaith wedi ei wneud i gefnogi busnesau lleol i ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant a mesurau hinsawdd mewn tendrau yn ogystal ag asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r Cytundeb Gofal bellach wedi ei ddyfarnu gyda swyddogion yn cydweithio gyda darparwyr i sefydlu'r model newydd o weithio a rhoi sylw i faterion cyflogaeth.

2.2 MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH

- 2.2.1 Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol. Mae'r grŵp prosiect wedi ymateb trwy gyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched y Cyngor. Daeth y gyfres gyntaf o'r Rhaglen Ddatblygol i ben ar y 4ydd o Orffennaf. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn galonogol iawn a'r ail gyfres yn cael ei chynnig yn ystod misoedd yr Hydref.
- 2.2.2 O'r cychwyn cyntaf mae cryn bwyslais wedi ei roi ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dynion sydd yn rheolwyr ac arweinyddion o fewn y Cyngor. Cynhaliwyd digwyddiad i ddynion y sefydliad ar yr 28ain o Fehefin. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn ble roedd cyfle i ddynion gael clywed a chwestiynu arweinwyr benywaidd a gwrywaidd oedd yn gallu rhannu profiadau a thynnu sylw at rwystrau a wynebir gan ferched yn y gweithle a datrysiadau posib i'r rhwystrau hynny.
- 2.2.3 Mae'r "sgyrsiau dros baned" ar gyfer Aelodau Etholedig a swyddogion benywaidd yn y Cyngor yn parhau gyda hwyluswyr a siaradwyr mewnol ac allanol yn cael eu trefnu ar gyfer y cyfnod nesaf.
- 2.2.4 Wrth symud ymlaen i gamau nesaf y prosiect bydd sylw'n cael ei roi i ddatblygu'r defnydd o ddata ac ystadegau ar gyfer mesur llwyddiant y prosiect.

2.3 SICRHAU TEGWCH I BAWB

- 2.3.1 Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor.

- 2.3.2 Mae'r gwaith o ddiweddarau'r e-fodiwl cydraddoldeb, sy'n un o'r e-fodiwlau mandadol, wedi ei gwblhau gyda 403 o unigolion wedi ei gwblhau rhwng Ebrill ac Awst 2022. Bydd sylw'n cael ei roi i ddatblygu sesiynau ar-lein arbenigol ar gyfer gweithwyr rheng flaen penodol. Yn dilyn yr etholiad darparwyd hyfforddiant cydraddoldeb i Aelodau a bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnig yn yr Hydref.
- 2.3.3 Mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymgysylltiad cydraddoldeb cyhoeddus wedi ei gwblhau gyda'r mwyafrif llethol o'r ymatebwyr heb wynebu unrhyw rwystrau oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig wrth ymwneud â'r Cyngor. Mae'r gweddill yn codi nifer o faterion sydd angen eu cyfarch ac mae'r gwaith hynny'n mynd rhagddo gyda Gwasanaethau perthnasol.
- 2.3.4 Bu rhywfaint o oedi pellach yn y gwaith o baratoi Asesiad Effaith Cydraddoldeb electroneg newydd ond yn ffyddiog y bydd yn barod i'w ddefnyddio yn yr wythnosau nesaf. Mae templed interim yn cael ei defnyddio yn y cyfamser.
- 2.3.5 Mae penderfyniad wedi ei wneud i fynd am achrediad "Inclusive Employers". Cyflwynir y cais erbyn 16eg o Ragfyr a disgwylir derbyn canlyniad yr asesiad ac adroddiad adborth yn ystod mis Mawrth 2023.

2.4 ENWAU LLEFYDD CYNHENID GYMRAEG

- 2.4.1 Fel y gwyddoch, mae pryder fod enwau llefydd cynhenid Cymraeg yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg. Mae'r prosiect yn blaenoriaethu'r meysydd i gael sylw a hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud o safbwynt adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd, enwau llefydd ac ati.
- 2.4.2 Mae Rhaglen waith cam 2 (blwyddyn 2) wedi ei llunio ac yn cael ei gweithredu. Fodd bynnag, mae gwyro wedi bod oddi wrth y rhaglen waith yn ddiweddar gan fod ymchwil wedi ei gynnal ar gais y Tîm Arweinyddiaeth i edrych ar newidiadau posib i enwau strydoedd y sir.
- 2.4.3 Mae cymalau newydd wedi eu hychwanegu i Bolisi iaith y Cyngor, fel rhan o waith adolygu ehangach, i adlewyrchu arweiniad y Tîm Arweinyddiaeth ac awydd ac ymrwymiad y Cyngor i arddel enw Cymraeg y Cyngor ac enwau lleoedd Cymraeg yn ehangach lle bynnag y bo'n bosib. Cyflwynir y Polisi Iaith i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn maes o law.
- 2.4.4 Datblygwyd a chynhaliwyd gweithdy ar gyfer staff (yn benodol Rheolaeth adeiladu, tîm iaith) ar roi cyngor ar enwi tai er mwyn lledaenu arbenigedd yn y maes.
- 2.4.5 Yn sgil ymateb cyhoeddus i newid enwau ar fapiau mae trafodaethau wedi ei cynnal gyda swyddogion yr Arolwg Ordians i drafod rhwystrau, i ddeall eu prosesau cyfredol ac i sefydlu perthynas weithio. Bydd rhaglen weithredu yn cael ei chreu er mwyn

dylanwadu ar enwau sy'n ymddangos ar fapiau. Cyfarfodydd hefyd yn cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i drafod cyfleoedd cydweithio.

2.5 HYBU DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN GWASANAETHAU'R CYNGOR

- 2.5.1 Mae'r Cyngor wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.
- 2.5.2 Mae hyfforddiant iaith yn parhau gyda nifer o staff yn manteisio ar gyfleoedd mewnol ynghyd ag allanol. Mae gwaith o hyrwyddo cyrsiau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith yn digwydd yn barhaus ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod cyrsiau addas i staff rheng flaen a threfnu cyrsiau comisiwn.
- 2.5.3 Mae gwaith wedi cychwyn ar gasglu asesiadau gan reolwyr gwasanaeth ar gyfer y staff sydd heb asesiad iaith yn yr adran Economi a Chymuned (y mwyafrif yn staff achlysurol a thymhorol). Mae blaenoriaeth wedi ei roi i gysylltu â holl wasanaethau rheng flaen ar draws y Cyngor ynghylch hyfforddiant iaith a bydd hynny yn digwydd cyn gynted â phosib.

Mae cydnabyddiaeth fod y gwaith yma wedi gwreiddio ac yn rhan o waith dydd i ddydd bellach ac mae trefniadau ar waith i gau'r prosiect gyda'r adrannau sy'n weddill erbyn Rhagfyr 2022.

2.6 Y GYMRAEG A'R GWASANAETHAU CYHOEDDUS

- 2.6.1 Pwrpas y prosiect yma gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Mae ffocws y prosiect ar y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac nid ar argaeledd gwasanaethau lle ddylai'r argaeledd hwnnw fod yn ddiogel.

- 2.6.2 Mae Cwmni Iaith Cyf wedi eu penodi a gwaith arsylwi wedi ei gynnal yn y derbynfeydd ym mis Mai a Mehefin. Mae grwpiau ffocws gyda'r staff sydd wedi cymryd rhan wedi eu cynnal gan Cwmni Iaith yn ystod mis Gorffennaf. Argymhellion wedi eu creu er mwyn ceisio annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd a phecyn adnoddau a chanllawiau i staff wedi ei ddatblygu, anogir staff sefydliadau cyhoeddus i wneud defnydd o'r adnoddau newydd. Bydd canfyddiadau'r arsylwi, argymhellion a phecyn adnoddau a chanllawiau datblygu yn cael eu cyflwyno i aelodau Is-grŵp y Gymraeg yn eu cyfarfod nesaf.

2.6.3 Rhagwelir y bydd gwaith y prosiect penodol hwn wedi ei orffen erbyn Rhagfyr 2022.

2.7 SICRHAU FOD RHEOLWYR YN ARDDEL EU RÔL IECHYD A DIOGELWCH YN EFFEITHIOL

2.7.1 Mae'r prosiect yma wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol am y tro cyntaf yng Nghynllun y Cyngor am eleni.

2.7.2 Mae'r maes Iechyd Diogelwch a Llesiant o dan y chwydd wydr mewn ffordd na fu erioed o'r blaen, a hynny am sawl rheswm. Yn amlwg, daeth cyfnod y pandemig a'n diogelwch ni oll i flaen meddwl pawb, ac mae cadw pawb yn ddiogel yn un o'r disgwyliadau mwyaf sylfaenol sydd ar y Cyngor gan bobl Gwynedd.

2.7.3 Mae Swyddogion wedi cydweithio gyda Swyddog Prosiectau Systemau Adnoddau Dynol i fapio prosesau cyfeirio unigolion at yr Uned Iechyd Galwedigaethol a'r system adrodd ar ddamwain i'r Uned Iechyd a Diogelwch allan. Mae hwn at bwrpas bod yn glir o'n anghenion fel Cyngor i fynd allan i gaffael systemau allanol pwrpasol.

2.7.4 Yn dilyn adolygiad llawn o ofynion hyfforddi, mae hyfforddiant wyneb i wyneb IOSH i Rheolwyr yn parhau a bydd yn adfer o'r 7.9.2 ac mae nifer o gyrsiau wedi eu rhaglennu cyn y Nadolig mewn ymgais i ddal i fyny ar sefyllfa sydd wedi llithro ers dwy flynedd. Mae yna nifer o gyrsiau atgoffa hefyd wedi eu rhaglennu er mwyn sicrhau fod hyfforddiant pawb yn gyfredol.

2.7.5 Bydd sesiwn hyfforddi ar 'Arwain yn Ddiogel' yn cael ei drefnu cyn y Nadolig i Dîm Rheoli'r Cyngor. Mae hyfforddiant Aelodau Etholedig wedi ei adolygu i gynnwys elfen ar eu diogelwch personol nhw fel aelodau.

2.7.6 Mae Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol newydd wedi ei phenodi i'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant a dwy nyrs wedi cofrestru ar gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr i allu cyflwyno cwrs rheoli iechyd meddwl I-act. Y gobaith yw cyrraedd sefyllfa ble fo pob Rheolwr wedi mynychu cwrs ar sut i reoli a chefnogi iechyd meddwl eu staff.

2.7.7 Er mwyn cwblhau'r Polisi Iechyd a Diogelwch sydd wedi bod o dan adolygiad, mae sgwrs ynglŷn â strwythurau llywodraethu iechyd a diogelwch yn fewnol wedi ei chynnal gyda'r Prif Weithredwr, a gwaith pellach angen digwydd ar gylchoedd gorchwyl gwahanol grwpiau mewnol oedd yn bodoli cyn COVID i'w cyflwyno iddo, er mwyn sicrhau fod monitro digonol ar y lefel briodol.

2.8 CYNLLUNIO'R GWEITHLU

2.8.1 Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y cyfnod ac mae angen ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol wedi eu llunio i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor.

2.8.2 Mae gwaith wedi dechrau ar greu cynnwys ar gyfer gwefan Gyrfaoedd pwrpasol. Y bwriad yw y bydd y wefan yn cael ei defnyddio fel y prif borth ar gyfer denu ymgeiswyr



i swyddi. Hefyd, mae bwriad i ymestyn a threialu ymhellach y defnydd o ffurflenni cais amgen, mwy syml, mewn rhai meysydd gwaith penodol.

- 2.8.3 Wrth symud ymlaen bydd pob cyfle yn cael ei gymryd i geisio gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o'r staff sydd gennym ar hyn o bryd, trwy amlygu cyfleoedd am oriau gwaith ychwanegol sydd ar gael i staff rhan amser, mewn meysydd gwahanol, os ydyn nhw yn dymuno cynyddu eu horiau.
- 2.8.4 Cyflwynir trefn ffurfiol o gynnal sgysiau / cyfweiliadau gadael â staff er mwyn deall yn well pam fod unigolion yn gadael cyflogaeth y Cyngor. Mae'r dogfennau perthnasol wedi eu cynhyrchu eisoes, ac wedi eu defnyddio fel treial o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Bydd defnyddio trefn fel hyn yn ein galluogi i ddeall pam fod pobl yn gadael cyflogaeth y Cyngor.
- 2.8.5 Mae'r Cynllun Prentisiaethau a'r cynllun graddedigion yn parhau i wneud cynnydd da ac yn cael cydnabyddiaeth ar draws y Cyngor a thu hwnt. Yn ddiweddar croesawyd 10 prentis a 4 o hyfforddai proffesiynol newydd i'r Cyngor o fewn meysydd technoleg gwybodaeth, gofal plant, peirianeg, cyllid, y gyfraith, rheoli digwyddiadau a chydaddoldeb ac amrywiaeth. O fis Medi ymlaen bydd 20 o brentisiaid a 14 o hyfforddeion proffesiynol ar ein cynlluniau. Bydd ymgyrch o adnabod cyfleoedd a recriwtio ar gyfer swyddi prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol ar gyfer 2023 yn cychwyn o fis Hydref ymlaen.
- 2.8.6 Bydd adroddiad yn cael ei lunio ar y Cynllun Profiad Gwaith newydd ar gyfer 2023.

2.9 RHOI Ffordd GWYNEDD AR WAITH

- 2.9.1 Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen.
- 2.9.2 Mae pob Adran wedi cynnal hunanasesiad o'u cynnydd yng nghyswllt diwylliant Ffordd Gwynedd yn ystod chwarter olaf 2021/22. Mae'r ymatebion wedi eu dadansoddi a'i cymeradwyo fel sail i Gynllun Tair Blynedd newydd ar gyfer datblygu'r sefydliad a'r diwylliant yn y Cyngor. Bydd Cynllun Tair Blynedd a Rhaglen Waith Ffordd Gwynedd ar gyfer 2022-25 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei gymeradwyo yn ystod Hydref 2022.
- 2.9.3 Mae Ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd ynghyd a'r Tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn parhau i ddarparu cyngor a hyfforddiant i bwrpas cynnal adolygiadau gwasanaeth ar gyfer nifer o unedau gwasanaeth/adrannau. Yn ystod yr Hydref / Tachwedd cynhelir dwy sesiwn codi ymwybyddiaeth am 'Ffordd Gwynedd' gydag Aelodau Etholedig.
- 2.9.4 Mae'r trefniadau adrodd a herio perfformiad newydd wedi'u cyflwyno gyda'r cyfarfodydd herio cyntaf o dan y drefn newydd wedi'u cynnal yn ystod Mehefin/Gorffennaf tra bo cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn wedi'u hamserlennu. Bydd cynrychiolaeth o 'fysg aelodau'r Pwyllgor Craffu, ynghyd a'r Aelod Cabinet cysgodol, yn ymuno efo'r Aelod Cabinet mewn dau o'r pump cyfarfod herio

perfformiad yn ystod y flwyddyn. Adolygir llwyddiant y trefniadau herio perfformiad newydd yn dilyn cynnal cylch blwyddyn.

- 2.9.5** Mae Rhwydwaith Rheolwyr ar ei newydd wedd wedi'i ail-lansio gyda threfniadau yn eu lle i gynnal y gyfres nesaf o gyfarfodydd wyneb i wyneb yn ystod yr Hydref eleni.

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Nodir isod trosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.


3.2 Adnoddau Dynol

- 3.2.1 Mae lefelau absenoldeb wedi dychwelyd i'r lefelau y gwelwyd cyn cyfnod Covid. Mae'r nifer o achosion Covid yn rhannol gyfrifol am y lefelau presennol. Mae sylw yn cael ei roi i fonitro'r lefelau absenoldeb gyda Grŵp Absenoldebau wedi ei ffurfio i fonitro'r sefyllfa. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi sylw penodol i ddarganfod rhesymau dros absenoldebau a chynnig cefnogaeth i reolwyr o fewn amrywiol adrannau a gwasanaethau o fewn y Cyngor.

3.3 Cyswllt Cwsmer a Chofrestru

- 3.3.1 Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd a swyddogion o dan bwysau yn sgîl swyddi gwag.
- 3.3.2 Dros y misoedd diwethaf mae camau wedi eu cymryd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth ac erbyn hyn mae'r lefelau staffio yn cyfateb i'r hyn sydd wedi ei adnabod ar gyfer strwythur y gwasanaeth. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill ar gyfer recriwtio prentisiaid a hysbysebu swyddi achlysurol o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, rhaid tynnu sylw fod llawer o waith i'w wneud o ran hyfforddi staff newydd a bydd rhai misoedd eto cyn bydd gwelliant yn y perfformiad.
- 3.3.3 Mae nifer galwadau a gollwyd yn is dros y chwarter diwethaf a hynny yn dilyn penodi 2 aelod o staff newydd yn delio gyda galwadau ffôn yn bennaf sydd yn dangos fod y recriwtio diweddar yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Mae gwaith wedi cychwyn gyda'r Gwasanaeth TG er mwyn adnabod galwadau o fethiant fel bo modd cydweithio gyda gwasanaethau i wella'r safon o wasanaeth i gwsmeriaid.

(Nifer galwadau a gollwyd yn fisol)



3.3.4 Fel y bydd y sefyllfa staffio yn sefydlogi y gobaith yw cynyddu'r defnydd o 'web chat' ac adnabod pa agwedd arall o hunan wasanaeth fyddai o fudd i'r cwsmer er mwyn cynyddu'r defnydd o 'web chat'.

3.4 Democratiaeth ac Iaith


3.4.1 Mae'r daith o sefydlu'r fenter iaith yn annibynnol yn y gymuned yn cynyddu momentwm gyda'r Grŵp Arweiniol wedi ei ffurfio i arwain ar y gwaith. Y bwriad yw ei lansio ar ein newydd wedd yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023.

3.4.2 Cyn cyfnod yr haf llwyddodd Hunaniaith i sicrhau grant o £12,000 gan Gronfa Llywodraeth Cymru. Drwy dderbyn yr arian grant bu modd trefnu a chynnal nifer o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc, oedran 11-25, ar draws y sir fel rhan o 'Haf o Hwyl'. Bu'r gweithgareddau yn hynod o boblogaidd ac mae cynlluniau pellach ar y gweill i gynnal digwyddiadau i ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Ngwynedd.

3.5 Ymchwil a Gwybodaeth

3.5.1 Mae digwyddiadau o wybodaeth bersonol yn cael ei ddatgelu mewn camgymeriad, neu trwy amryfusedd, yn parhau i ddigwydd mewn manau o fewn y Cyngor gyda 5 ddigwyddiad ym mis Gorffennaf a 4 arall yn ystod Awst. Mae cyfran (tua'u hanner) yn parhau i fod yn e-byst anfonwyd i'r cyfeiriad anghywir. Bydd y Panel Llywodraethu gwybodaeth yn ystyried papur gan Grŵp Tasg a Gorffen sydd wedi bod yn edrych ar ddiogelwch e-byst a'r posibilïadau technegol i wneud camgymeriadau'n llai tebygol o ddigwydd. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd ar edrych ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth electronig a lefel yr adnodd sydd gan y Cyngor mewn maes sy'n datblygu'n gyflym iawn.

(Nifer digwyddiadau gwybodaeth)



3.5.2 Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth hefyd wedi dechrau monitro ac adrodd yn fisol ar y canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod y patrwm yn amrywio tipyn fesul mis, bydd rhaid cadw golwg ar y sefyllfa a gweld sut batrwm fydd yn datblygu dros gyfnod o amser.

3.6 Iechyd, Diogelwch a Llesiant

3.6.1 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dilyn cyfarwyddyd cenedlaethol gan AGID (*Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch*), ataliwyd y gwaith statudol gwylidwriaeth iechyd dros dro. Erbyn hyn mae cyfarwyddyd wedi ei dderbyn i ail gydio yng ngwylidwriaeth iechyd ac felly mae'r gwaith yn derbyn blaenoriaeth uchel gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol oherwydd yr angen i ddal fyny ers Covid. O ganlyniad i hyn mae amser aros am apwyntiad gyda'r ymgynghorwyr iechyd galwedigaethol wedi cynyddu i 6 wythnos. Fodd bynnag, mae nyrs newydd wedi ei phenodi ac wedi ymuno a'r tîm yn ddiweddar ac yn gallu helpu a rhai elfennau o'r llwyth gwaith ac yn aros am hyfforddiant arbenigol er mwyn cyfrannu at y gwaith gwylidwriaeth iechyd. Teimlaf y bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau na fydd yr amser aros yn mynd yn broblem tymor hir.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1.1 Mae gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol darged arbedion o £80,000 i'w wireddu. Mae cynlluniau i wireddu'r arbediad yma ar y trywydd cywir a bydd swm yr arbediad wedi ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

GWASANAETHAU CYFREITHIOL

PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

PRIODOLDEB

Cyfrannu at y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithredu yn rôl Swyddog Monitro y Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd ("CBC"), sydd yn cynnwys swyddogaethau cyffelyb i Bennaeth Gwasanaethau Democraataidd. Mae'r Offerynnau Statudol sefydlu a gweinyddu y CBC wedi dod i rym dros gyfnod o amser ac mae ambell elfen yn dal ar y gweill. Mae hyn wedi golygu darparu cefnogaeth arbenigol ar faterion cyfansoddiadol a threfniadaeth y CBC. Yn ogystal a darparu y gefnogaeth yma paratowyd dogfennau cyfansoddiadol cychwynnol ynghyd ac mae'r gwaith o ddatblygu y Cyfansoddiad yn parhau.

Gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau i ymdrin a'r adolygiad o'r fframwaith foesegol yn deillio o Adroddiad Mr Richard Penn



Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Richard Penn disgwylir am ymateb y Lywodraeth i'r argymhellion sydd yn cwmpasu materion megis trefniadau datrys lleol, hyfforddiant a chyd berthynas y gyfundrefn a chynghorau tref a chymuned. Yn y cyfamser mae'r Pwyllgor Safonau wedi cychwyn ar waith yn ymchwilio i ffurf y gefnogaeth fyddai Cynghorau Tref a Chymuned yn ddymuno weld. Fodd bynnag mae pa gamau mae'r Llywodraeth am gymryd mewn ymateb yn greiddiol i sefydlu sut i weithredu ymhellach a cynnal trafodaeth am unrhyw ofynion adnoddau all godi.

Cynnal trefniadau anwytho a hyfforddi aelodau y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad yn sgil yr etholiadau lleol.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fel rhan o'r sesiynau anwytho a llwyddwyd i ddarparu hyfforddiant i 65 o aelodau .Mae'r gwaith yma yn parhau gyda cwrs manylach wedi yn cael ei ddarparu ar 2 achlysur yn barod Bwriedir cynnal sesiynau pellach er cyfarch gofyn ychwanegol. Mae cwrs wedi ei baratoi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned y gellir ei ddarparu yn rhithiol a bwriedir cychwyn rhaglen o sesiynau pan fydd adnoddau yn caniatáu.

ETHOLIADAU

Cefnogi y Swyddog Canlyniadau i ddarparu Etholiadau Lleol Mai 2022

Cynhaliwyd yr Etholiadau Lleol ym Mai 2022 a chafwyd adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Etholiadau ynglŷn a'r trefniadau eleni . Bydd adolygiad o'r trefniadau a chynllun gwaith ar gyfer datblygu a gwella i'r dyfodol yn cael ei baratoi ac mae perfformiad yr etholiad yma wedi tanlinellu gwerth gweithredu yn y modd yma.

Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.

Yn ystod 2021 -2022 drwy fuddsoddiad mewn staff a rhaglen gyfathrebu uniongyrchol llwyddwyd i gael gofrestru 70% o etholwyr 16- 18 ar gyfer etholiadau Mis Mai. Roedd hyn wedi cynnwys gwaith gyda Ysgolion Colegau a'r Gwasanaeth Ieuenctid i hyrwyddo cofrestru ynghyd a ymgyrch gohebu uniongyrchol. Yn ogystal a hyn llwyddwyd i gael dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn oedd yn llwyddo a'r dulliau o ymgysylltu ynghyd a chreu cysylltiadau mewn sefydliadau y gellir eu datblygu a defnyddio i'r dyfodol.

Mae'n anodd cael data cymharol ar gyfer hyn am y cyfnod hyd ddiwedd Ebrill 2022. Rydym yn broses of greu swydd barhaol fydd yn ymysg y dyletswyddau yn parhau a'r gwaith hyrwyddo cofrestru yn benodol o amgylch y grŵp yma o etholwyr.

CRWNER

Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal a sefydlu yr ardal ar sail gynaliadwy.

Mae'r trefniadau ar gyfer penodi Crwner parhaol wedi cychwyn. Cymeradwywyd y trefniadau gan y Cabinet cyn yr etholiad. Disgwylir cadarnhad y Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r ddogfennaeth ac mae amserlen recriwtio mewn lle. Disgwylir trafodaeth ynglŷn a'r gofynion cefnogaeth yn sgil penodiad parhaol.

PERFFORMIAD

GWASANETH CYFREITHIOL

Cesglir barn defnyddwyr y gwasanaeth cyfreithiol am y gwasanaeth. Y targed cyfredol y canran holiaduron barn a sydd yn dagan 10/10 am y gwasanaeth – Hyd yn hyn mae 100% o holiaduron a ddychwelwyd yn 10/10. Fodd bynnag mae nifer yr holiaduron sydd yn cael eu dychwelyd yn isel iawn (4) . Yn dilyn hyn rydym wedi cynnal adolygiad llawn o'r drefn. Mae'r ystadegau yn bwysig i ni nid yn unig o ran sgôr ond cael barn a darlun cyflawn am y gwasanaeth a dderbynnir. Drwy'r drefn newydd byddem yn cyflwyno holiaduron ond yn cymryd camau rhagweithiol i geisio barn gyflawn ar draw yr Adrannau sydd yn erbyn ein gwasanaeth.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

SYLWADAU - SWYDDOG MONITRO

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

SYLWADAU – PENNAETH CYLLID

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

Adran Tai ac Eiddo

04 Hydref, 2022



Eitem 7

Tud. 22

Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet

Cynghorydd Craig ab Iago

Swyddog Cyswilt: Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo

Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod	4 Hydref, 2022
Aelod Cabinet	Cynghorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt	Carys Fon Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo
Tud. Rhif cyswllt	01341 424368
Pwnc	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol



1. Cyflwyniad



1.1 **Pwrpas** yr adroddiad hwn yw diweddarau'r Cabinet ar yr hyn sydd wedi digwydd yn fy meysydd fel Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo. Yn gryno bydd yn cynnwys diweddariad ar brosiectau Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion ariannol.

1. **Tud. 24** Mae sefyllfa digartrefedd yn parhau i waethgu ac mae'r niferoedd sy'n ddigartref ar hyn o bryd yn 740. Wrth gwrs, nid dyma dymuniad y Cyngor, ac er na allwn ddadwneud y sefyllfa, ond mae'r Adran yn gwneud cymaint â phosib i wneud y sefyllfa'n well i bobl Gwynedd. [Gweler 2.1.1 i weld y cynlluniau hyn.](#)

1.3 Rydym yn dal i wynebu argyfwng tai, ac mae'r Adran yn gweithio'n rhagweithiol i roi cymaint â phosib o gyfleoedd i bobl Gwynedd fyw yn lleol. Rydw i'n hynod o falch o ddweud ein bod yn dathlu camau cyffrous iawn yn y daith hon – rydym wedi prynu ein tir cyntaf ac wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer ein datblygiad tai cyntaf ers 30 mlynedd.

1.4 Mae sefyllfa ynni yn y newyddion ar hyn o bryd ond mae tlodi tanwydd yn hysbys i ni yng Ngwynedd ers amser maith. Ond rydym o ddifrif am fynd i'r afael â'r sefyllfa er mwyn pobl Gwynedd, ac fel cam arwyddocaol, rydym wedi sefydlu Gwasanaeth Ynni newydd yn ddiweddar. [Mae mwy o wybodaeth am hyn yn 2.1.5.](#)

1.5 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion hyn yn destun trafodaeth gyson rhyngof i a'r Adran, ac wedi eu craffu gennyf ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth a Rheolwyr Gwasanaeth yr Adran.

1.6 **Yn gyffredinol rwy'n fodlon gyda chynnydd prosiectau yr mae'r adran yn eu harwain yn unol â Chynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt, ac er bod heriau yn wynebu rhai gwasanaethau yn sgil ôl-ffaith y pandemig a Brexit, ac effeithiau newydd yn sgil y brwydro yn Wcraïn a chynnydd mewn costau byw, rwy'n hyderus fod gan yr Adran gynlluniau addas i gyfarch y sefyllfa hyd eithaf eu gallu.**

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)


Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau

2.1 Hoffwn dynnu'ch sylw at y prif gynlluniau y mae'r Adran yn eu blaenoriaethu ar hyn o bryd.

2.1.1 Cynlluniau Digartrefedd

Ar yr 1af Medi, 2022, roedd 720 o unigolion yn ddigartref yng Ngwynedd. Ers tair blynedd, mae cynnydd cyson wedi bod yn y niferoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref, gyda'r cynnydd diweddaraf yn 19%. O gymharu 2018/19 (sef y flwyddyn gyflawn ddiwethaf cyn y pandemig) gyda 2021/22, cyflwynodd 48% yn fwy o bobl yn ddigartref.

Eleni, rhagdybiwn y bydd y niferoedd a gyflwyno'n ddigartref yn cynyddu eto – mae'r niferoedd wedi cyflwyno hyd yma'n debyg iawn i'r un adeg y llynedd, ar ben ffactorau newydd megis y cynnydd mewn costau byw, cynnydd yn nifer y landlordiaid sy'n rhoi'r gorau i osod eu heiddo i denantiaid a sefyllfa ansicr ffoaduriaid Wcrain.



Mae'r Adran yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fynd i'r afael â'r sefyllfa ddigynsail hon, sy'n amrywio o ddatblygu llety â chefnogaeth (prosiect 1a yn y Cynllun Gweithredu Tai), i sefydlu cefnogaeth arbenigol iechyd meddwl (prosiect 1d). Dyma dynnu'ch sylw at ambell ddiweddariad.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

2.1.1 Cynlluniau Digartrefedd

1a Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref



Darluniad artist o ddatblygiad
137 Stryd Fawr, Bangor



Tŷ Adferiad, Porthmadog



Dyluniad 3D o ddatblygiad Glan Wnion, Dolgellau

Prosiect	Unedau	Gwybodaeth
Wedi cwblhau		
Tŷ Adferiad, Porthmadog	6	Y llety â chefnogaeth cyntaf o'i fath yng Ngwynedd er mwyn cynnig cefnogaeth arbenigol i ferched digartref
Uwchraddio Hostel Noddfa, Deiniolen	6	Mae adeilad Hostel Noddfa (hen ficerdy) wedi'i uwchraddio yn llwyr sy'n golygu y gall dderbyn ystod mwy eang o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel
Ar y gweill		
35 Ffordd y Coleg, Bangor	3	Datblygu hen adeilad segur yn llety â chefnogaeth.
Glan Wnion, Dolgellau	5	Mae'r hen adeilad wedi'i ddymchwel ac mae gwaith ar y sylfeini wedi dechrau.
137 Stryd Fawr, Bangor	12	Llety â chefnogaeth tenantiaeth. Cydweithio gyda Thai Gogledd Cymru ac Adra. Mae'r gwaith ar godi'r strwythur yn dechrau fis Medi ac anelir i gwblhau'r gwaith erbyn haf 2023.
Llety i deulu ac unigolyn ym Mhwllheli	2	Contractwyr ar safle, gobeithio gorffen erbyn Ebrill 2023.
Podiau, Segontium, Caernarfon	4	Mae'r podiau wedi cwblhau, ac ambell fater i'w drafod gyda Dŵr Cymru cyn symud tenantiaid i mewn
Cyfanswm:	38	

2.1.1 Cynlluniau Digartrefedd

1ch Pecynnu cefnogaeth i landlordiaid preifat

Mae'r Adran wrthi'n gweithio ar gynlluniau i ddatblygu pecynnu cefnogaeth ar gyfer landlordiaid preifat. Bwriad y pecynnu hyn fydd annog landlordiaid preifat ar draws Gwynedd i gynnig tenantiaeth i bobl leol sydd mewn angen am dai, yn hytrach na'u gosod am ffnodau tymor byr neu fel llety gwyliau.

Mae'r Adran eisoes wedi llwyddo i ddenu £2.7m ar gyfer y prosiect hwn ac mae swyddogion wrthi'n rhoi cynllun at ei gilydd. Mae diddordeb eisoes wedi'i ddangos yn y cynllun gan 5 landlord, ac oherwydd y diddordeb hwn, mae'r Adran yn hyderus y bydd yn llwyddo i basio'r targed o 4 uned a osododd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, ac yn anelu bellach at ddod ag 8 uned ychwanegol gan ddod â'r cyfanswm eleni i 12 uned.



2.1.1 Cynlluniau Digartrefedd

1d Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol

Mae atal digartrefedd yn rhan greiddiol o waith y Gwasanaeth Digartrefedd, ond mae canran y tenantiaethau sydd dan fygythiad oherwydd materion iechyd meddwl ar gynydd.

Er mwyn osgoi sefyllfa ble mae'r unigolion bregus hyn yn colli eu tenantiaeth, mae'r Adran yn cynyddu ei chapasiti i'w cynorthwyo a'u cefnogi i barhau yn eu cartref.

Ar hyn o bryd, mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yng nghyd-destun digartrefedd yn gallu bod yn heriol ac yn broses hir, sy'n golygu'n aml iawn ei bod yn rhy hwyr i allu atal rhywun ddod yn ddigartref erbyn i'r unigolyn dderbyn cymorth.

Trwy'r cynllun arloesol hwn fydd yn cael ei redeg ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, anelwn i helpu o leiaf 200 o unigolion dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn amserol a heb ychwanegu straen at sefyllfa sydd eisoes yn anodd.

Disgwylir y bydd hynny'n cael effaith bositif ar nifer o agweddau yng nghyswllt digartrefedd, gan gynnwys lles unigolion, y galw ar ein staff, ar lety dros dro ac ar lety â chefnogaeth.

Yn ddiweddar, cymerwyd cam arwyddocaol ar y daith bwysig hon trwy benodi Cydlynnydd Iechyd Meddwl sydd eisoes wedi dechrau yn ei swydd, a bydd Gweithiwr Achos Atebion Tai Iechyd Meddwl yn cael ei benodi yn fuan hefyd.



2.1.2 Cynlluniau Prynu Tai a Phrynu Tir



Mae'n fwriad gan y Cyngor brynu tai i'w rhentu i drigolion Gwynedd, a hynny mewn dwy ffordd, naill ai trwy brynu tai preifat a'u gosod ar rent canolraddol, neu brynu cyn-dai cymdeithasol a'u gosod ar rent cymdeithasol. O weithredu'r cynlluniau hyn yn llwyddiannus, ar ddiwedd cyfnod 6 mlynedd ein Cynllun Gweithredu Tai bydd y Cyngor yn berchen ar oddeutu 100 o dai fydd ar gael i'w gosod i drigolion lleol.



Yn ogystal â hyn, bwriedir prynu tir datblygu addas mewn lleoliadau ar draws y Sir er mwyn datblygu ein tai ein hunain maes o law, fel y nodir yng nghynllun 3ff y Cynllun Gweithredu Tai.

Rydw i eisoes wedi tynnu sylw at y gwaith dygn sydd wedi, ac yn parhau i ddigwydd ar y cynlluniau hyn – gwaith sy'n gorfod digwydd y tu ôl i'r llenni yn amlach na dim oherwydd ei natur sensitif a chyfrinachol.

Ond rydw i'n falch iawn o ddweud bod yr Adran wedi cwblhau'r pryniant tir datblygu cyntaf fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai, a hynny ym Morfa Nefyn – rhan o'r Sir sydd mewn gwir angen am dai fforddiadwy i bobl leol.

Bwriedir codi 9 tŷ fesul dipyn ar y tir yn dilyn egwyddorion Tŷ Gwynedd (gellir gweld mwy am y cynllun hwn isod), ac amcangyfrifwn y bydd yn helpu tua 40 o bobl i rentu neu brynu tŷ ym Morfa Nefyn.

Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yma: [Cyngor Gwynedd yn prynu tir datblygu i godi cartrefi canolraddol ym Mhen Llŷn \(llyw.cymru\)](#) neu trwy wyllo fideo yma: <https://youtu.be/5STnRJroM5s>



2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

Rydym hefyd yn wrthi'n ystyried safleoedd eraill mewn rhannau gwahanol o'r Sir ar gyfer eu prynu i'r un perwyl.

Yn ogystal, rydym wedi prynu ein tai cyntaf dan y Cynllun Gweithredu Tai, a hynny ym Mangor ac yn Llanberis. Ein bwriad yw gosod y tai ar rent canolraddol i berson â chysylltiad lleol ac sydd mewn angen am dŷ o'r fath. Mae 8 tŷ arall yn mynd trwy'r camau cyfreithiol ar hyn o bryd er na allaf rannu rhagor o fanylion ar hyn o bryd, hyderaf y bydd gennyf ddiweddariad erbyn y tro nesaf.

2.1.3 Cynllun Prynu Cartref Gwynedd




Cynllun i brynwyr tro cyntaf, neu i unigolion a theuluoedd sy'n cael trafferth ffordd prynu cartref addas ar y farchnad agored, yw'r Cynllun Prynu Cartref. Gellir cynnig benthyciad di-log i gau'r bwloch rhwng pris eiddo a'r hyn y gall darpar brynwyr ei gynnig ar ffurf morgais a blaendal. Y nod trwy hyn yw gwneud tai yn fforddiadwy i drigolion sy'n cael trafferth cael morgais digonol i brynu tŷ ar y farchnad agored yn eu hardal leol.

Mae'r Cynllun Cymorth Prynu wedi bod gynllun llwyddiannus ers y dechrau, ac wedi helpu nifer o bobl allu berchen ar eiddo. Fodd bynnag, oherwydd cyllideb gweddol fychan, dim ond ar raddfa fechan yr oedd posib gweithredu hyd yma.

Bellach, trwy gyfuno arian o Gronfa Premiwm Treth Cyngor Gwynedd, a chyllid ychwanegol gan y Llywodraeth fel rhan o Beilot Ail Gartrefi Dwyfor, rydw i'n falch o ddweud ein bod yn gallu ymestyn y cynllun presennol sy'n golygu bod gwerth £13m o fenthyciadau ecwiti ar gael er mwyn rhoi cyfle i fwy byth o bobl brynu cartref oddi ar y farchnad agored yn eu cymuned leol. Mae'r cyllid yn cynnwys buddsoddiad o £8.5m gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Beilot Ail Gartrefi Dwyfor.

Lansiwyd y Cynllun ar 13 Medi a byddaf yn rhoi diweddariad pellach yn fy adroddiad nesaf.



[Gwylwch fideo hyrwyddo'r Cynllun Prynu Cartref trwy glicio yma](#)

2.1.4 Datblygu ein tai ein hunain ar gyfer pobl leol

Mae Cynllun 3a: Datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai yn gynllun cyffrous sy'n anelu i godi tai arloesol ar draws Gwynedd a fydd ar gael i'w prynu neu eu rhentu ar rent canolraddol. Bydd pob tŷ yn cael ei adeiladu yn seiliedig ar egwyddorion ['Tŷ Gwynedd'](#), gan sicrhau eu bod yn hyblyg, yn wyrdd, yn ynni-efeithiol, ac wedi'u hadeiladu yn gynaliadwy.

Mae'r datblygiad cyntaf, sef 10 o dai yn ardal Coed Mawr, Bangor, newydd gyrraedd carreg filltir arwyddocaol o dderbyn Caniatâd Cynllunio. Bydd swyddogion nawr yn paratoui i fynd allan i dendr ar gyfer y gwaith adeiladu.



Dyluniadau safle Coed Mawr, Bangor

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

Yn y cyfamser, mae swyddogion yn ystyried safleoedd eraill addas ar draws y Sir, ac wrth gwrs bydd ein [tir newydd ym Morfa Nefyn](#) yn cael ei ddefnyddio i godi Tai Gwynedd yn dilyn asesiad gan Hwylusydd Tai Gwledig.

2.1.5 Sefydlu Gwasanaeth Ynni newydd

Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn gosod nod o greu Gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i ymateb i'r lluo o geisiadau a ddaw gan grwpiau cymunedol yn gofyn am help i wireddu cynlluniau ynni adnewyddol a gwella gallu trigolion Gwynedd i osgoi tlodi tanwydd. Mae dwy brif ffrwd i'r gwaith ar hyn o bryd, sef Datgarboneiddio Tai, ac Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar Dlodi Tanwydd. Manylir ychydig ar y ddwy ffrwd hon isod.


Ymgynghori ar dlodi tanwydd

Mae'r gwaith hwn yn hynod o bwysig yn yr hinsawdd sydd ohoni. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, mae Gwynedd yn un o'r ardaloedd â'r lefel uchaf o dlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth yn brysur yn y cefndir yn rhwydweithio a threfnu digwyddiadau ar draws y Sir fel rhan o'r ymdrech i arfogi pobl Gwynedd i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y maes yma. Yn ychwanegol at hyn, trefnwyd dwy Gynhadledd Ynni yn y misoedd diwethaf – un ym mis Gorffennaf a'r ail ym mis Medi – i dynnu ynghyd sefydliadau a mudiadau sy'n weithgar yn y maes i drafod syniadau, cyngor a datrysiadau posibl ar gyfer helpu pobl Gwynedd.

Datgarboneiddio Tai

Mae stoc tai Gwynedd ymysg y gwaethaf o ran perfformiad ynni ym Mhrydain.

Mae'r graffiau a'r tabl isod yn dangos bod y rhan helaethaf o stoc dai'r Sir yng nghategori EPC (Energy Performance Certificate) D neu'n is a bod y rhan fwyaf wedi eu hadeiladu cyn 1900. Mae'n drawiadol mai dim ond 25 tŷ sydd yng Ngwynedd sydd ag EPC A.



Ers sefydlu'r Gwasanaeth Ynni newydd ym Mai 2021, a thrwy gyfeirio at y cynlluniau sydd ar gael, cyflawnwyd yng Ngwynedd:

- 349 gyfeiriadau ECO 3 (2021/22)
- 257 o gyfeiriadau i Nyth (2021/22)
- 47 o dai yn Tanygrisiau wedi cael mesurau o dan Arbed 3 cyn i'r cynllun orffen yn Tachwedd 2021

2.2 Mynediad rhwydd a chlr at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu ein drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai

Mae'r Adran yn parhau gyda'i nod o sefydlu drws ffrynt/desg gymorth ar gyfer gwasanaethau tai fydd yn hwyluso mynediad y cyhoedd at y gwasanaethau hynny ac yn eu helpu gyda phroblemau tai yn fwy effeithlon.

Ers i mi adrodd ddiwethaf, mae'r Arweinydd Tîm Siop un Stop wedi bod yn gweithio'n ddygn ar gynnal ymchwil trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol (gan gynnwys y Cymdeithasau Tai, asiantaethau yn y maes a phartneriaid o'r trydydd sector) er mwyn deall yr anghenion ac asesu'r galw cyfredol. Pan ddaw'r gwaith hwnnw i ben yn ystod yr wythnosau nesaf, byddaf yn cyflwyno adroddiad yn i Bwyllgor Craffu Gofal y Cyngor ym mis Chwefror 2023 fydd yn rhoi diweddariad ar y Siop un Stop.

Mae'r ymchwil hefyd yn edrych ar gaffael system rheoli gwybodaeth. Mae'n bwysig ein bod yn caffael system sy'n caniatáu i'r Siop un Stop gydweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill yn yr Adran (megis Digartrefedd ac Opsiynau Tai). Yn ogystal â hynny, rydym yn y broses o wneud trefniadau i sefydlu Llwybr Sengl (neu SPOA) ar gyfer cyfeirio at wasanaethau a ariannir trwy'r Grant Cymorth Tai. I'r perwyl hwn, cynhaliodd yr Adran sesiynau galw-i-mewn yn ddiweddar ble gwahoddwyd unrhyw un â diddordeb mewn ymgeisio am swyddi'r gwasanaeth hwn i ddod i siarad a dysgu mwy am waith yr Adran a'r gwasanaeth. Er bydd rhaid disgwyl ychydig hwy i weld ffrwyth llafur y sesiynau hyn, dangoswyd cryn ddiddordeb a gobeithiwn y bydd hyn yn esgor ar geisiadau cryfion ar gyfer y swyddi.



2.3 Risgiau eraill

Digartrefedd

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r galw am wasanaethau'r Unedau Digartrefedd yn parhau yn gyson uchel gyda'r niferoedd digartref yn parhau i dyfu ar yr un raddfa â'r llynedd.

Nid yw hyn yn debygol o ddiflannu a bydd y galw am ein gwasanaethau yn parhau am flynyddoedd i ddod, yn sicr wedi i Lywodraeth Cymru osod gofyniad statudol ar i bob Awdurdod Lleol gartrefu pawb sy'n cyflwyno'n ddigartref iddynt o hyn ymlaen.

Fodd bynnag, nid oes cadarnhad wedi'i dderbyn gan y Llywodraeth o gyllid ychwanegol i gyfarch y galw uwch fydd arnom yn sgil hyn, ac mae pryder gwirioneddol na fydd ein cyllidebau presennol yn ddigonol i ymateb i'r galw.

Rydw i a'r Adran eisoes wedi amlygu'r risg hon yn gorfforaethol ond bydd y risgiau'n ymwneud â Digartrefedd yn debygol o fod gyda ni nes bydd y cydbwysedd rhwng y galw am dai a'r cyflenwad yn gwella.

Ffoaduriaid ac Wcrain

Yn sgil y rhyfel yn Wcrain, mae cynnydd sylweddol wedi bod ar Uned Ailsefydlu Ffoaduriaid yr Adran.

Mae cynlluniau ar y gweill i edrych ar strwythur ac adnoddau'r Uned i'r dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn y lle gorau i ymateb i'r angen cynyddol ar y gwasanaeth.

Dylid cadw mewn cof bod risg sylweddol y gall ffoaduriaid Wcrain gael eu gwneud yn ddigartref pe bai noddwyr yn rhoi'r gorau i'w lletya neu os daw trefniadau'r Canolfannau Croeso i ben.

Amcangyfrifir y gall hynny, yn y senario waethaf, ychwanegu dros 200 o unigolion at ein niferoedd cyflwyniadau digartref.



Rhagwelir y bydd y cynnydd aruthrol mewn costau ynni yn cael effaith sylweddol ar y Cyngor. Tra bo prisiau nwy'r Cyngor wedi eu cloi am y cyfnod Ebrill 2020–Mawrth 2024 (ac felly wedi osgoi'r cynnydd byd-eang yng nghostau ynni ac arbed miliynau o bunnoedd i'r Cyngor), nid felly'r sefyllfa gyda thrydan.

O'r 1af o Hydref 2022 rhagwelwn gynnydd sylweddol yng nghost uned o drydan a dylid paratoi ar gyfer cynnydd o 400% yng nghost uned tan o leiaf y 31ain o Fawrth, 2023.

Er mwyn lleddfu'r ergyd ariannol hon, mae'r Adran yn pwysleisio'r angen i ddefnyddwyr adeiladau'r Cyngor (boed yn swyddfeydd, ysgolion ac eraill) fanteisio ar bob cyfle i wneud y defnydd mwyaf synhwyrol o'u hynni, er enghraifft, sicrhau eu bod yn diffodd goleuadau pan nad oes defnydd o ystafell a thros nos. I'r perwyl hwn, mae'r Adran wedi ymgynghori gyda'r Adran Addysg i hysbysu penaethiaid ysgolion o'r arferion da hyn a bydd y Gwasanaeth Ynni yn parhau i fonitro defnydd ynni ar draws ein safleoedd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ynni.

3. PERFFORMIAD


Mae'r Adran wedi bod yn un o'r cyntaf i weithredu trefn newydd herio perfformiad y Cyngor, lle gwahoddir rheolwyr gwasanaeth a Phennaeth yr Adran i drafod perfformiad mewn cyfarfodydd bob dau fis. Yn unol â'r drefn hon, cyflwynwyd yr adroddiad perfformiad diwethaf ar ddata Mehefin 2022, a chrynhair y prif faterion a godwyd o'r cyfarfod hwnnw isod. Hoffwn ddweud fy mod yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran mewn cyfnod mor heriol.



3.1 Mae'r amser a gymerir i ymateb i gais am waith cynnal a chadw yn parhau **dros 10 diwrnod**, ac wedi parhau i gynyddu dros y misoedd diwethaf.

Fodd bynnag gellir egluro'r cynnydd gyda rhesymau teilwng ac nid wyf yn pryderu'n ormodol am hyn.

Un o'r rhesymau pam mae'r amser wedi cyrraedd y lefel bresennol yw bod swyddogion wedi cael trafferthion wrth geisio cael mynediad i safleoedd, megis cartrefi gofal ac ysgolion, yn sgil cyfyngiadau Covid.



Gwelir cynnydd nodedig pellach ym mis Chwefror 2022 a hynny oherwydd bod yr Uned yn cynnal ymarferiad glanhau data a dileu gwallau ar eu system reoli gwybodaeth.

Golyga hynny gwblhau tagau megis cau galwadau sydd wedi bod ar agor ers amser maith trwy gamgymeriad, sy'n gwthio'r ffigyrau yn uwch. Penderfynwyd rhoi cyfnod o ras i'r Gwasanaeth gwblhau'r ymarferiad glanhau hwn cyn adrodd eto ar y data er mwyn gweld darlun gwell o'r gwir sefyllfa.




YNNI AC ALLYRIADAU CARBON

3.3

Braf yw adrodd bod canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor yn parhau yn gyson is na'r un adeg yn 2019 (sef y flwyddyn arferol ddiwethaf cyn y pandemig) - gweler y graff ar y dde.

Mae'r Uned yn defnyddio system newydd o'r enw *Smartspaces* sy'n galluogi iddynt fonitro defnydd ynni ar draws ein safleoedd yn well ac yn fanylach.

Gwelir bod y rhan fwyaf o'n hysgolion yn perfformio'n well na 2019, ac mae denfydd nwy'r Pencadlys i lawr 90% o gymharu â'r un adeg yn 2019, hynny o ganlyniad i Fehefin anarferol o oer yn 2019, ynghyd â llai o ddefnydd gwres eleni.





DIGARTREFEDD

3.3 Mae'r cynnydd mewn digartrefedd y soniais amdano uchod yn cael ei adlewyrchu ym mesurau perfformiad yr Adran, gyda'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas (e.e. gwely a brecwast) ym mis Mehefin yn **159** o ddiwrnodau, a'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety dros dro (tai preifat sy'n cael eu prydlesu gennym) yn **352** diwrnod.

Nid oes datrysiad hawdd a chyflym i'r broblem hon, ond mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu 38 o

unedau llety â chefnogaeth i alluogi unigolion symud o lety argyfwng, ynghyd â chynlluniau i annog rhagor o landlordiaid osod eu heiddo er budd unigolion a theuluoedd digartref. Mae'r diddordeb sydd eisoes wedi'i ddangos yn ein gwneud yn hyderus y gallwn gyrraedd ein nod o 12 eiddo erbyn diwedd y flwyddyn gyfredol



Cynllun Gweithredu Tai

3.4 Rhoi cymorth i bobl fyw mewn cartref o safon, sy'n fforddiadwy ac sydd yn gwella ansawdd eu bywyd yw nod pennaf y Cynllun Gweithredu Tai a mesurir hynny trwy gyfrifo sawl uned



sydd wedi'i ddatblygu neu sawl person sydd wedi derbyn cymorth tuag at wireddu'r nod hwnnw.



Mae'r ffigwr hwn ar hyn o bryd yn 2088, sy'n deillio o waith rhagweithiol i alluogi i bobl aros yn eu tai a pharhau i fyw yn annibynnol e.e. trwy wneud addasiadau a gosod rampiau ac ati, a chynlluniau sy'n galluogi i bobl brynu neu rentu tai e.e. grantiau i brynwyr tro cyntaf adnewyddu tai gwag, prynu tai oddi ar y farchnad breifat ac ati. Rhagwelir y byddwn yn cyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

- 4.1 Bydd adolygiad ariannol manwl o sefyllfa gyllidebol yr Adran yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhellach ymlaen y mis hwn. Fodd bynnag, fel rhagrybudd yma, mae'r Adran yn wynebu heriau cyllidol digynsail mewn costau llety dros dro eleni. Byddaf i a'r Pennaeth Adran yn cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth yn fuan er mwyn derbyn arweiniad strategol ar hyn.
- 4.2 Ym mis Hydref eleni rhagwelir bydd costau trydan yn cynyddu ar raddfa o rhwng 350-400%. Nid yn unig bydd hyn yn rhoi pwysau ar gyllidebau adeiladau'r Adran ond ar holl eiddo'r Cyngor yn ogystal.

Tud. 37

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y SWYDDOG MONITRO

Dim sylw i'w wneud o safbwynt priodoldeb

PENNAETH CYLLID

Mae'r adroddiad yn nodi fod nifer o'r meysydd mae'r Adran Tai ac Eiddo yn gyfrifol amdanynt yn wynebu heriau ariannol sylweddol, a bydd effaith y pwysau ariannol hwn – boed yn alw ychwanegol ar y Gwasanaeth Digartrefedd, y cynnydd sylweddol mewn costau trydan neu'r angen i ddarparu mwy o dai – yn cael ei deimlo gan y Cyngor gyfan. Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol, a bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad manwl yn ei gyfarfod ar 25 Hydref ar effaith y pwysau yma, a phwysau arall, ar gyllideb y Cyngor.

Eitem 8

BLAENRAGLEN WAITH

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
Chwarter 3 2022/23 1 Hydref – 31 Rhagfyr		
25 Hydref 2022	Adroddiad Gwella Gwasanaeth / Cwynion a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon	Cyng. Menna Jones
	Prosiect Gofal Cartref – Diweddariad yn dilyn y broses dendro	Cyng. Dilwyn Morgan
	Cyllideb Refeniw 2022/23 – Adolygiad Diwedd Awst 2022	Cyng. Ioan Thomas
	Rhaglen Gyfalaf 2022/23 – Adolygiad Diwedd Awst 2022	Cyng. Ioan Thomas
	Trosolwg Arbedion 2022/23	Cyng. Ioan Thomas
22 Tachwedd 2022	Mabwysiadu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	Cyng. Dafydd Meurig
	Cynllun Economi Ymweld	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Datblygu Unedau Gwaith	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Adroddiad Hunan-Arfarniad Blynyddol 2021/22	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Premiwm Treth Cyngor	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros yr Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd	Cyng. Elin Walker Jones

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyng. Dilwyn Morgan
13 Rhagfyr 2022	Cronfa Ffyniant Bro	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd	Cyng. Dafydd Meurig
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	Cyng. Berwyn Parry Jones
Chwarter 4 2022/23 1 Ionawr – 31 Mawrth 2023		
24 Ionawr 2023	Cronfa Ffyniant Cyffredin	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Fframwaith Adfywio Gwynedd	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys
	Cyllideb Refeniw 2022/23 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2022	Cyng. Ioan Thomas
	Rhaglen Gyfalaf 2022/23 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2022	Cyng. Ioan Thomas
	Trosolwg Arbedion 2022/23 – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg	Cyng. Beca Brown
14 Chwefror 2023	Strategaeth Ariannol a Chyllideb 2023/24	Cyng. Ioan Thomas
	Strategaeth Cyfalaf 2023/24	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Economi	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Corfforaethol	Cyng. Menna Jones
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo	Cyng. Craig ab Iago
7 Mawrth 2023		
28 Mawrth 2023		